## ATODLEN 9

Rheoliad 3

## RHYWOGAETHAU ERAILL: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i anifail heblaw un yr ymdrinnir ag ef yn unrhyw un o Atodlenni 2 i 8, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

**Torri blaen clust chwith cathod lledwyllt**

**1.** Rhaid rhoi anesthetig.

**Ysbaddu**

**2.** Rhaid rhoi anesthetig.

**Caglu embryonau neu'u trosglwyddo drwy ddull llawfeddygol**

**3.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen**

**4.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i anifail a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

**Trosglwyddo ofa, gan gynnwys casglu ofa drwy ddull llawfeddygol**

**5.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

**Disbaddu**

**6.** Rhaid rhoi anesthetig.

**Fasdoriad**

**7.** Rhaid rhoi anesthetig.

**Laparosgopi**

**8.** Pan na fo'r anifail y mae'r driniaeth i'w rhoi iddo yn ymlusgiad, ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Yn y naill achos neu'r llall, rhaid rhoi anesthetig.

**Tynnu corewinedd cŵn**

**9.** Rhaid rhoi anesthetig ac eithrio pan fo'r ci yn gi bach nad yw ei lygaid wedi agor eto.

**Tynnu cen pysgod**

**10.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond at ddibenion canfod oed.